GWNEWCH BOB TAITH YN UN DDA.

DILYNWCH Y COD TEITHIO.

ADNODDAU DYSGU'R COD TEITHIO, CYFNOD ALLWEDDOL 4

Gallai'r cynlluniau gwers gyfrannu at gyfres ehangach o wersi yng Nghyfnod Allweddol 4 gan edrych ar ddiogelwch personol, hawliau a chyfrifoldebau. Mae cysylltiadau gyda deilliannau dysgu penodol o'r fframwaith ABCh ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru'n cynnwys:

Sgiliau

Datblygu meddwl

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ddefnyddio peth gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith, a rhagfynegi
- ystyried gwahanol safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol
- defnyddio ystod o dechnegau ar gyfer myfyrdod personol

Datblygu cyfathrebu

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- wrando'n graff mewn ystod o sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol
- cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn effeithiol mewn ystod o sefyllfaoedd gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol
- gwerthfawrogi safbwyntiau eraill, myfyrio yn eu cylch a'u gwerthuso'n feirniadol.

Ystod

Dinasyddiaeth weithgar

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ddatblygu parch atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill

a deall:

- eu hawliau, e.e. *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn,* a'u cyfrifoldebau

Iechyd a lles emosiynol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- dderbyn cyfrifoldeb personol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach

Datblygiad moesol ac ysbrydol

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr i ddeall:

- yr ystod o werthoedd ac egwyddorion sy'n llywio bywydau pobl

Gweithio gydag eraill

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- weithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill i gynllunio a chwblhau ystod o dasgau
- myfyrio ar y rolau i'w chwarae mewn sefyllfaoedd grŵp, gan gynnwys arweinyddiaeth
- bod yn bendant ac ymwrthod â dylanwad diangen gan gyfoedion a phobl eraill